# Syrthio i gysgu

*"Nid yw'r plentyn wedi marw, cysgu y mae." (adn. 39)*

**Beth am ddarllen Marc 5:35–43 ac yna myfyrio**

Ni ddywedodd Iesu Grist lawer am ein cyflwr yn y byd ar ôl y byd hwn. Ond mae realiti ein bodolaeth i'w ddarganfod yn y cyfan a ddywedodd. Yr ydym eisoes wedi llawenhau yn y geiriau clir hynny, "Yn nhŷ fy Nhad, y mae llawer o drigfannau. Pe na byddai felly, buaswn wedi dweud wrthych." Sut y gall y Cristion wynebu marwolaeth gydag ofn pan fo marwolaeth yn ei ddwyn i mewn i bresenoldeb y Tad?

Sylwch hefyd fod Iesu Grist yn y darn yr ydym yn ei ddarllen heddiw yn sôn am gwsg lle y byddai eraill yn sôn am farwolaeth. Wrth y rhai oedd yn galaru o amgylch corff y ferch fach dywedodd, "Nid yw'r plentyn wedi marw, cysgu y mae." Nawr mae rhai yn dehongli'r digwyddiad fel hyn. Roedd y bobl o amgylch y ferch yn meddwl ei bod yn farw, ond, mewn gwirionedd, dim ond cysgu yr oedd hi. Roedd Iesu yn gwybod hyn, ac felly, dim ond angen ei hiachau oedd arno ac nid ei dwyn o farwolaeth i fywyd. Beth, tybed, y mae'r fath ddehonglwyr yn ei wneud o eiriau Iesu yn Ioan 11:11 pan mae'n cyfeirio at farwolaeth Lasarus yn yr un geiriau: "Mae'n cyfaill, Lasarus, wedi syrthio i gysgu." Nid oes dim amheuaeth nad oedd Lasarus, yn ôl ein diffiniad ni, wedi marw. Pam fod Iesu'n defnyddio'r term 'cysgu' wrth sôn am farwolaeth? Oherwydd gwelodd farwolaeth yn ei bersbectif cywir – syrthio i gysgu mewn un byd i ddeffro mewn byd arall.

Wrth gwrs, mae'r byd y byddwn yn deffro iddo yn dibynnu ar ein perthynas â Iesu Grist. Mae'r rhai nad ydynt yn adnabod Iesu, y rhai sydd heb brofi maddeuant o'u pechodau, y rhai hynny sydd heb gael sicrwydd o fywyd tragwyddol, yn debyg o weld marwolaeth mewn ffordd fwy bygythiol na syrthio i gysgu. Ac felly y bydd. Ni all dim fod yn fwy trychinebus na syrthio i gysgu yn y byd yma a deffro mewn byd lle nad yw'r Arglwydd Iesu.

**Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**
Actau 7:54–60; 1 Cor. 15:6; 1 Thes. 4:13–15

**Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**
1. Sut y disgrifir marwolaeth Steffan?
2. Beth, yn ôl Paul, oedd yr hyn na ddylem fod yn anwybodus yn ei gylch?

**Gweddi**
Arglwydd Iesu Grist, mae'r sicrwydd fy mod i yn eiddo i ti, a dy fod ti yn eiddo i mi yn bwrw allan ofn o farwolaeth, oherwydd dy fod ti yn fyw, byddaf i fyw. Nid yw marwolaeth yn golygu dim mwyach, mwy na chau fy llygaid ar y ddaear a'u hagor yn y nefoedd. Diolch i ti, Arglwydd. Amen.